# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 11 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09:00 - 12:26** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_11_07_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Rhodri Glyn Thomas**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Paul Bogle, National Federation of Builders Wales Limited**<br>**Ian Davies, Pennaeth Gweithrediadau'r Rhwydwaith, Llywodraeth Cymru**<br>**Rhys Davies**<br>**Keith Edwards, Cyfarwyddwr, Chartered Institute of Housing Cymru**<br>**Richard Jenkins, Director, Federation of Master Builders Wales** |

| | |
|---|---|
| | **Richard Price, Planning and Policy Advisor, Wales, Home Builders Federation**<br>**Wyn Price, Llywodraeth Cymru**<br>**Claire Rooks, Llywodraeth Cymru**<br>**Julie Nicholas, Chartered Institute of Housing Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Marc Wyn Jones (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Jonathan Baxter (Ymchwilydd)**<br>**Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â gwaharddebau i atal niwsans ac atal tarfu ar bersonau, Gorchmynion Ymddygiad Troseddol a'r Trothwy Cymunedol

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

Gohebiaeth y mae'r Gweinidog wedi'i chael gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc mewn perthynas â'r Bil.

Nodyn am y ffrwd ariannu ar gyfer cyfiawnder adferol.

Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhyrchwyd ar gyfer y Bil.

## 3 Ymchwiliad i'r rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 1

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr, Cymru, Cyf., Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, Cymru a Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi.

## 4 Ymchwiliad i’r rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 2

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru. Cytunodd y Sefydliad i ddarparu linc i adroddiad ar gartrefi cydweithredol.

## 5 Ymchwiliad i’r rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 3

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fforest Timber Engineering Limited ac INTEGRA.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref – trafod yr adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

## 8 Blaenraglen waith y Pwyllgor - Cylch gorchwyl drafft

Yn amodol ar wneud rhai man newidiadau, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad i gydweithredu.

## 9 Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau.

9.1 Tystiolaeth ychwanegol gan Chwaraeon Cymru - Data am nofio mewn ysgolion 2012 - yn dilyn y cyfarfod ar 19 Mehefin 2013

9.2 Gohebiaeth oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â deisebau sy'n ymwneud â threftadaeth

9.3 Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth Stuart Williams, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon - yn dilyn cyfarfod 27 Mehefin 2013

9.4 Rhagor o wybodaeth oddi wrth Simon Jones, Chwaraeon Cymru - yn dilyn y cyfarfod ar 19 Mehefin 2013